| | |
|---|---|
| Polisi | **Polisi Llyfrgell Prifysgol Abertawe ynghylch Ymwelwyr Allanol** |
| Dyddiad Cymeradwyo | 29/03/2023 |
| Cymeradwywyd gan: | Tîm Arweinyddiaeth Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe |

## Crynodeb

Mae Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe yn bennaf at ddefnydd myfyrwyr a staff presennol Prifysgol Abertawe. Rydym yn caniatáu mynediad i'n llyfrgelloedd ar Gampws Singleton a Champws y Bae ac i Lyfrgell y Glowyr De Cymru i'r gymuned ehangach sydd am ddefnyddio ein hadnoddau at ddibenion academaidd ac ymchwil. Mae cyfyngiadau ar fynediad a rhestrir y rhain isod.

- Caiff ymwelwyr allanol ymweld â llyfrgelloedd Campws Singleton neu Gampws y Bae neu Lyfrgell y Glowyr De Cymru yn ystod yr oriau agor pan fydd staff ar ddyletswydd a nodir ar ein tudalen we Oriau Agor a Lleoliadau Llyfrgelloedd. Mae Llyfrgell Parc Dewi Sant ar agor pan fydd staff ar ddyletswydd at ddibenion cyfeirio yn unig.
- Yn ystod cyfnodau adolygu ac arholiadau, bydd mynediad yn gyfyngedig i fyfyrwyr a staff Prifysgol Abertawe, ac aelodau Mynediad SCONUL o sefydliadau eraill, yn unig. Ewch i'r dudalen we Oriau Agor a Lleoliadau Llyfrgelloedd am restr o'r dyddiadau hyn. Mae'n bosib y bydd rhaid i ni gyfyngu ar fynediad i'n llyfrgelloedd ar adegau allweddol eraill yn ystod y calendr academaidd, felly mae'n syniad da edrych ar ein tudalennau gwe cyn pob ymweliad. Yn ystod y cyfnodau hyn, bydd ymchwilwyr yn dal i allu ymweld â Llyfrgell y Glowyr De Cymru ac Archifau Richard Burton drwy apwyntiad.
- Caiff myfyrwyr ysgol a choleg 16 oed ac yn hŷn ddefnyddio ein llyfrgelloedd i gefnogi eu hastudiaethau. Yn unol â pholisi Prifysgol Abertawe ynghylch Plant ar Fangreoedd y Brifysgol, rhaid i ymwelwyr dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn bob amser.
- Rhaid i ymwelwyr ag Archifau Richard Burton wneud apwyntiad cyn eu hymweliad.
- Gofynnir i ymwelwyr â'r llyfrgelloedd barchu adeilad ac adnoddau'r llyfrgell a'i staff a'i hymwelwyr. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n defnyddio mannau astudio at ddibenion academaidd ac ymchwil.
- Disgwylir i ymwelwyr â'r llyfrgell ofalu am eu heiddo personol a pheidio â'i adael heb sylw yn y llyfrgell. Nid yw Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe'n gyfrifol am unrhyw golled, lladrad neu ddifrod i eiddo personol.

## Myfyrwyr a Staff Prifysgol Abertawe

- Mae gan staff a myfyrwyr Prifysgol Abertawe fynediad llawn yn awtomatig at adnoddau, cyfleusterau a gwasanaethau ein llyfrgelloedd yn ystod yr oriau agor cyfredol.
- Bydd angen i chi gyflwyno eich cerdyn adnabod yn y Brifysgol - hwn fydd eich cerdyn llyfrgell hefyd - wrth fynd i mewn i'r adeilad neu pan fydd aelod o staff y Llyfrgell yn gofyn i chi ei ddangos.

## Defnyddwyr nad ydynt yn Aelodau Staff neu'n Fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe

Gofynnwn i chi gynllunio'ch ymweliad ymlaen llaw. Mae ein llyfrgelloedd yn arbennig o brysur yn ystod y tymor rhwng 11:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. A wnewch chi drefnu eich ymweliad y tu allan i'r oriau hyn os oes modd.

- Y Cyhoedd: Mae cynllun dwyochrog Pasbort Llyfrgelloedd Ynghyd yn caniatáu i unrhyw aelod o wasanaethau llyfrgell cyhoeddus Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro fenthyca adnoddau am ddim yn llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe a llyfrgelloedd addysg bellach ac addysg uwch eraill. Os nad ydych yn aelod eisoes, ewch i'ch llyfrgell gyhoeddus leol i ymaelodi.
- Aelodau SCONUL: Mae Prifysgol Abertawe'n aelod o gynllun Mynediad SCONUL sy'n galluogi aelodau o brifysgolion eraill fenthyca adnoddau o'i llyfrgelloedd a'i chasgliadau. Cysylltwch â'ch sefydliad eich hun i gael manylion am sut i gofrestru.
- Gall myfyrwyr o sefydliadau eraill gael mynediad i leoedd astudio'r llyfrgelloedd a defnyddio'r casgliad ar sail cyfeirio yn unig.
- Gall cyn-fyfyrwyr ddefnyddio'r llyfrgelloedd drwy'r cynllun Llyfrgelloedd Ynghyd a nodir uchod.
- Mae croeso i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddefnyddio ein llyfrgelloedd drwy'r cynllun Llyfrgelloedd Ynghyd a nodir uchod.

## Ymweliadau gan grwpiau ysgol

Rydym yn croesawu ymweliadau cynlluniedig gan grwpiau ysgol at ddibenion astudio a chyfeirio at adnoddau, casgliadau arbennig ac ymgynghori â'n harbenigwyr pwnc. Rhaid i grwpiau fod yng nghwmni athrawon a/neu arweinwyr ysgol bob amser.

Dylai ymweliadau ysgol gael eu trefnu ymlaen llaw drwy e-bostio tîm Llyfrgell MyUni. Sylwer bod yr holl ymweliadau'n amodol ar asesiadau risg a rhaid iddynt gydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Brifysgol.

## Mynediad at y rhwydwaith Wi-Fi i Ymwelwyr a Gwesteion

Mae Rhwydwaith Ymwelwyr Prifysgol Abertawe ar gael i ymwelwyr a gwesteion y brifysgol.

## Adnoddau'r llyfrgell ar-lein i ymwelwyr

### E-adnoddau'r llyfrgell i ymwelwyr

Mae Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe yn cynnig mynediad at ddetholiad o e-adnoddau'r llyfrgell i ymwelwyr (megis e-gyfnodolion a chronfeydd data'r llyfrgell) pan fyddant yn adeiladau ein llyfrgelloedd.

### Pwy sy'n gallu defnyddio'r gwasanaeth hwn?

Gall ymwelwyr, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd a staff a myfyrwyr o sefydliadau eraill, ddefnyddio'r e-adnoddau llyfrgell hyn (megis e-gyfnodolion a chronfeydd data'r llyfrgell) tra byddant ar y campws.

### Oes unrhyw gyfyngiadau?

Dylai'r e-adnoddau sydd ar gael i ymwelwyr gael eu defnyddio at ddibenion addysgol yn unig, er enghraifft, addysgu, ymchwil neu astudio annibynnol. Mae eu defnyddio at ddibenion masnachol neu fusnes wedi'i wahardd yn llwyr.

Gellir chwilio o fewn e-adnoddau llyfrgell unigol yn unig, nid y gwasanaeth cyfan.

Sylwer, gall mynediad at e-adnoddau'r llyfrgell gael ei dynnu yn ôl ar unrhyw adeg.

### Pa e-adnoddau gallaf eu cyrchu fel ymwelydd?

Rydym yn ceisio gwneud cynifer o e-adnoddau'r llyfrgell ar gael â phosib. Serch hynny, nid yw holl e-adnoddau'r llyfrgell ar gael i'r cyhoedd oherwydd cyfyngiadau trwydded.